*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1561 (Cy. 142)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Mehefin 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Mehefin 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 30(1) a (2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 18 Gorffennaf 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 hepgorer y diffiniad o "cyfarfod rhieni blynyddol" ("*annual parents' meeting*").

(3) Yn rheoliad 5—

(a) hepgorer paragraffau (1)(c) a (2)(b);

(b) ym mharagraff (2) hepgorer "na'r gofyniad ym mharagraff (1)(c)"; ac

(c) ym mharagraff (2)(a) ar ôl "paragraffau 1," mewnosoder "1A, 1B,".

(4) Yn rheoliad 6 yn lle "paragraffau (a) nac (c) o reoliad 5(1) yn gymwys" rhodder "paragraff (a) o reoliad 5(1) yn gymwys".

(5) Yn lle paragraff 1 o Atodlen 2 rhodder—

(**1**) 2002 9.32. Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 30 gan Ddeddf Addysg 2005 (p.18), adran 103(1)(a). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 30 a 210 o Ddeddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2011/1939 (Cy.207).

"**1** Pan fo corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod rhieni yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013—

(a) y dyddiad y cynhaliwyd y cyfarfod;

(b) lle y cynhaliwyd y cyfarfod;

(c) y rhesymau a roddwyd gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol dros ddeisebu i gael cyfarfod;

(d) enwau'r personau a ganlyn a fu'n bresennol yn y cyfarfod—

(i) aelodau o'r corff llywodraethu;

(ii) aelodau o staff yr ysgol;

(iii) cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol; a

(iv) enw unrhyw berson arall ac eithrio enw rhiant disgybl cofrestredig na fu'n bresennol yn rhinwedd ei swydd fel aelod rhiant-lywodraethwr o'r corff llywodraethu;

(e) faint o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol a fu'n bresennol yn y cyfarfod;

(f) disgrifiad byr o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod;

(g) disgrifiad byr o'r camau gweithredu y penderfynodd y corff llywodraethu eu cymryd, os bu rhai, o ganlyniad i'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod; a

(h) disgrifiad byr o ganlyniad y camau a gymerwyd gan y corff llywodraethu, os bu rhai, o ganlyniad i'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod.".

(6) Ar ôl paragraff 1 o Atodlen 2, mewnosoder—

"**1A** Where a governing body has not held a parents' meeting pursuant to section 94 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 a brief statement to that effect.

**1B** Where a governing body has received a petition to hold a parents' meeting pursuant to section 94 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 but no meeting was held—

(a) a brief statement to that effect;

(b) the purpose given by the parents for the need to hold a meeting; and

(c) the reason why a meeting was not held.".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o newidiadau i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ddod i rym ar 4 Mai 2013 ("Deddf 2013").

Mae adran 94 o Ddeddf 2013 yn rhoi hawl i rieni i gyflwyno deiseb i gael cyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol lle y mae eu plentyn yn ddisgybl cofrestredig. Mae adran 95 o Ddeddf 2013 yn diddymu'r ddyletswydd ar gorff llywodraethu i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol yn adran 33 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae paragraffau (2), (3)(a) a (b) a (4) o reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn hepgor cyfeiriadau yn Rheoliadau 2011 at y ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol yn adran 33 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2011 yn darparu y dylai copi o adroddiad llywodraethwyr yr ysgol gael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i rieni oni bai bod un o'r eithriadau a nodir yn y rheoliad hwnnw yn gymwys. Mae paragraff (3)(c) o reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2011 er mwyn ychwanegu at y rhestr o eithriadau o ran pa bryd y mae rhaid i gopi o adroddiad y llywodraethwyr gael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i rieni disgyblion cofrestredig.

Mae paragraffau (5) a (6) o reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gynnwys gwybodaeth benodol mewn perthynas â'i ddyletswydd i gynnal cyfarfod rhieni yn adran 94 o Ddeddf 2013 yn ei adroddiad blynyddol.